

Mr Keith Bullivant
Cambian Healthcare Ltd
Sceptre Court
40 Tower Hill
Llundain
EC3N 4DX

Llinell Uniongyrchol: 0300 062 8163
Ffacs: 0300 062 8387
E-bost: John.powell@wales.gsi.gov.uk

3 Mawrth 2014

Annwyl Mr Bullivant,

Parthed: Ymweliadau â St Teilo House ar 18, 19 a 20 Chwefror 2014

Fel y gwyddoch, cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ymweliad dirybudd ag ysbyty annibynnol St Teilo House fin nos ar 18fed a thrwy'r dydd ar 19eg ac 20fed o Chwefror 2014. Tynnodd ein hymweliad sylw at feysydd o bwys, gan gynnwys:

- Y berthynas dda rhwng cleifion a staff.
- Y cyfathrebu agored a gonest a gafwyd gyda'r rheolwr cofrestredig a'r Pennaeth Gofal.
- Ansawdd y bwyd a'r dewis ar y fwydlen.
- Roedd ffeiliau cyflogaeth y staff yn cynnwys yr holl wiriadau angenrheidiol wedi'u cyflwyno'n drefnus.
- Roedd yr holl hyfforddiant gorfodol diweddaraf i staff, gan gynnwys rheoli trais ac ymddygiad ymosodol a Diogelu Oedolion, wedi'i gynnal.

- Roedd y cyfarfod bore a throsglwyddiad y nyrsys ar ddiwedd eu shiftt wedi'i drefnu'n dda gyda staff yn dangos gwybodaeth dda am gleifion.
- Roedd trefniadau cymorth a hyfforddiant da ar waith ar gyfer y gweinyddwr Deddf Iechyd Meddwl a oedd newydd ei benodi.
- Roedd staff yn gadarnhaol am waith tîm a'r berthynas rhwng rheolwyr s staff.

Tynnodd ein hymweliad sylw at nifer o faterion hefyd. Darparwyd trosolwg geiriol hefyd o'n pryderon i'ch rheolwr cofrestredig a staff amrywiol ar ddiwedd ein hymweliad ar 11 Chwefror 2014. Nodir crynodeb o'r rhain, yn cynnwys achosion o dorri rheoliadau, isod:

Materion sy'n achosi pryder	Rheoliad
1. Mae angen adolygiad o dderbyniadau cleifion i sicrhau eu bod yn briodol ar gyfer yr ysbyty. Yn benodol, mae angen adolygiad o leoliad claf A.	Rheoliad 9 (1) (a) (b) a Rheoliad 19 (2) (d)
2. Mae'n rhaid i bob derbyniad posibl wynebu asesiad trylwyr sy'n benodol i St Teilo House. Derbyniwyd claf A i St Teilo House heb asesiad penodol ar gyfer lleoliad yn yr ysbyty.	Rheoliad 19 (2) (d)
3. Nododd adolygiad o'r ddogfennaeth ofal y materion canlynol: <ul style="list-style-type: none"> a. Ar gyfer claf A, roedd y rhestr wirio derbyniadau yn wag. b. Nid oedd cynllun gofal ar waith ar gyfer rhai asesiadau risg ar gyfer claf A. Er enghraifft, cael ei fictimeiddio. c. Nid oedd cynllun gadael yr ysbyty ar waith ar gyfer cleifion A, B ac C. d. Mae angen adolygu cynlluniau gofal. Roeddynt yn anodd eu dilyn ac roedd dau faes wedi'u rhestru dan un pennawd mewn ambell i achos. e. Roedd nifer o sylwadau amhriodol wedi'u rhestru yng nghofnodion adroddiad dyddiol claf A. f. Yn achos claf C, nid oedd y cynllun gofal ar gyfer ymddygiad ymosodol yn ddigon penodol. Ni nodwyd unrhyw strategaethau. <p>Mae'n rhaid mynd i'r afael â'r holl feysydd a nodir.</p>	Rheoliad 15 (1) (a) (b) a (c)
4. Mae angen adolygiad ar unwaith o niferoedd staffio i sicrhau eu bod yn ddigonol ac nad yw ymweliadau cleifion yn cael ei ganslo. Yn sgil prinder staff, nid	Rheoliad 20 (1) (a)

<p>yw rhai cleifion wedi gallu mynd ar ymweliadau.</p>	
<p>5. Nid oedd dogfennau goruchwylio ar gyfer mwyafrif y staff. Ym mis Ionawr 2014, roedd tri o 8 aelod o staff wedi'u goruchwylio ac roedd 7 o 28 o weithwyr cymorth wedi'u goruchwylio. Mae'n rhaid i'r holl staff dderbyn goruchwyliaeth reolaidd wedi'i dogfennu.</p>	<p>Rheoliad 20 (2) (a)</p>
<p>6. Nid oedd yr holl staff wedi'u harfarnu. Mae'n rhaid arfarnu staff yn rheolaidd a'i ddogfennu'n dda.</p>	<p>Rheoliad 20 (2) (a)</p>
<p>7. Mae'n rhaid i'r tîm amlddisgyblaethol ffurfiol gynnwys cynrychiolaeth nyrsio er mwyn sicrhau cyfranogiad llawn bob disgyblaeth. Ar adeg ein hymweliad, roedd y tîm amlddisgyblaethol ffurfiol yn cynnwys y clinigwr cyfrifol a chynrychiolwyr o feysydd seicoleg a therapi galwedigaethol. Roedd gan y staff nyrsio fewnbwn, ond nid aelodaeth ffurfiol.</p>	<p>Rheoliad 19 (2) (a) a (b) (iv) a Rheoliad 20 (1) (a)</p>
<p>8. Nodwyd nifer o faterion yn archwiliad fferyllfa Cambian dyddiedig Chwefror 2014. Mae'n rhaid mynd i'r afael â'r materion a nodwyd a darparu tystiolaeth o gydymffurfiaeth.</p>	<p>Rheoliad 15 (5) (a) a (b)</p>
<p>9. Mae gan yr ysbyty nifer o gleifion sy'n hunan-niweidio ac roedd diffyg cofnod o hyfforddiant i staff ymdrin â hyn. Mae'n rhaid llunio a gweithredu rhaglen hyfforddi ar hunan-niweidio, ar gyfer staff cymorth yn bennaf.</p>	<p>Rheoliad 20 (1) (a) (2) (a) a (b)</p>
<p>10. Mae claf D wedi bod yn St Teilo ers dros 2 flynedd ac nid yw wedi derbyn unrhyw driniaeth benodol ar gyfer ei anhwylder bwyta. Mae'n rhaid darparu rhaglen therapiwtig ar gyfer anhwylder bwyta.</p>	<p>Rheoliad 15 (1) (a) (b) a (c)</p>
<p>11. Roedd cysgodlenni swyddfa'r nyrsys wedi cau oherwydd bod gwybodaeth am gleifion ar y byrddau gwyn. Mae'n rhaid gorchuddio byrddau sy'n arddangos gwybodaeth am gleifion yn briodol er mwyn galluogi staff yn y swyddfa i allu gweld manau cleifion heb unrhyw rwystrau.</p>	<p>Rheoliad 26 (1) a (2) (a)</p>
<p>12. Yn y system cynllun gofal, gellir ond ychwanegu 4 pwynt at gofnod pob claf ar gyfyngiadau ar ryddid a dewisiadau, anghenion personol, risgiau posibl ac anghenion seicogymdeithasol. Mae'n rhaid adolygu'r penderfyniad mympwyol o 4 maes yn unig o fewn cynllun gofal claf.</p>	<p>Rheoliad 23 (1) (a) (i)</p>
	<p>Rheoliad 15 (1)</p>

<p>13. Mynegodd cleifion a staff bryder am fynediad i feddygon teulu. Felly, mae angen gwell mynediad i wasanaethau meddyg teulu.</p>	<p>(a) a (b)</p>
<p>14. Yn ystod yr ymweliad, nid oedd nifer o gleifion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau, gyda rhai cleifion yn cwyno am ddiflastod. Mae angen cynnal adolygiad o weithgareddau.</p>	<p>Rheoliad 15 (1) (a) (b) a (c)</p>

Mae'n rhaid i chi gyflwyno cynllun gweithredu manwl i AGIC erbyn **24 Mawrth 2014**, yn nodi'r camau rydych chi'n bwriadu eu cymryd i fynd i'r afael â phob un o'r materion uchod. Dylai'r cynllun gweithredu nodi amserlenni a manylion pwy fydd yn gyfrifol am roi'r camau ar waith. Ar ôl i AGIC gytuno bod y cynllun yn briodol, bydd angen i chi ddarparu diweddariadau misol ar gynnydd.

Ar ôl derbyn y llythyr hwn, bydd angen i'r Darparwr Cofrestredig gyflwyno sylwadau ar gywirdeb ffeithiol y materion ac ar ôl derbyn eich cynllun gweithredu, byddwn yn cyhoeddi copi o'r llythyr rheoli hwn, ynghyd â'ch cynllun gweithredu, ar ein gwefan.

Efallai y byddwn yn cynnal ymweliad pellach i sicrhau eich bod wedi mynd i'r afael yn drylwyr â'r materion uchod a byddwn yn cynnal mwy o ymweliadau os oes gennym bryderon nad ydych yn cymryd y camau angenrheidiol yn brydlon.

Mae croeso i chi gysylltu â mi os ydych chi am drafod cynnwys y llythyr hwn.

Byddwn yn anfon copi o'r llythyr hwn i Ms Cerys Morris, Rheolwr Ysbyty St Teilo House.

Yn gywir



Mr John Powell
Pennaeth Rheoleiddio

d/o – Ms Cerys Morris, St Teilo House, Goshen Street, Rhymni, Tredegar, Gwent
NP22 5NF